**EOC-02-01 (min)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Chwefror 2001 |
| **Amser:** | 10:00 a.m |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Presennol:** | **Aelodau** |
| Edwina Hart (Cadeirydd) | Gwí r |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| **Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor** | |
| Yr Athro Teresa Rees | Comisiynydd Cyfle Cyfartal Cymru |
| Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Mashuq Ally | Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol |
| Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| **Swyddogion** | |
| Rosie Seymour | Is-adran Perfformiad Ysgolion |
| Mike Harper | Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Charles Willie | Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Humphreys a Richard Edwards.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

**Eitem Lafar**

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, yn enwedig Yr Athro Teresa Rees a oedd yn gwneud ail ymweliad. Aeth ymlaen i adrodd ar nifer o faterion:

1. roedd y ddadl yn y cyfarfod llawn ar weithdrefnau penodiadau cyhoeddus, a gynlluniwyd ar gyfer 1 Chwefror, wedi ei gohirio oherwydd busnes brys arall y Cynulliad a byddai'n awr yn digwydd ar 15 Chwefror.
2. o ran y Mesur Diwygio Cysylltiadau Hiliol (RRAB) roedd papur yn nodi cyfarfod ar y corff 'bord gron' a fyddai'n goruchwylio'r broses o weithredu darpariaethau'r Mesur yng Nghymru. Gwahoddwyd pennaeth y tîm Swyddfa Gartref a ddrafftiodd y Mesur i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol. Gobeithwyd y byddai cynrychiolydd o rwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru yn mynychu yr adeg honno hefyd.
3. yr oedd wedi ysgrifennu at Martyn Jones, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, yn gofyn iddo fynychu cyfarfod yn y dyfodol er mwyn trafod yr adroddiad ar Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru; ac,
4. roedd Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i lythyr blaenorol y Cadeirydd ynglí n â gwasanaethau ar gyfer pobl ddall a byddar yng Nghymru. Roedd y Gweinidog wedi dynodi y byddai arweiniad yn cael ei gyhoeddi i'r awdurdodau lleol yn fuan a anelai at gynhyrchu safon o wasanaeth mwy unffurf ar gyfer pobl ddall a byddar.

1.2 Croesawyd y papur ar y Mesur Diwygio Cysylltiadau Hiliol gan Dr Ally. Teimlai ei bod yn bwysig cael rhaglen codi ymwybyddiaeth gan nad oedd cyrff sector cyhoeddus Cymru wedi sylweddoli oblygiadau'r Mesur hyd yma. Dylai'r Cynulliad annog datblygiad hyn. Byddai copi o ddogfen ymgynghorol y Swyddfa Gartref ar weithredu'r Ddeddf yn cyrraedd Prif Weinidog y Cynulliad erbyn diwedd mis Chwefror a dylai cyrff cyhoeddus eraill gael golwg arni hefyd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddogion sicrhau bod cyrff cyhoeddus Cymru yn cael eu cynnwys ar restr y Swyddfa Gartref o'r rhai yr ymgynghorir â hwy. Byddai'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol (CRE) yn rhan o'r seminarau codi ymwybyddiaeth ar gyfer aelodau a staff y Cynulliad a byddai'r rhain yn pwysleisio'r ffaith y byddai'r Codau Ymarfer sydd ar ddod yn rhan o ddeddfwriaeth ac y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol. Byddai'r gynhadledd arfaethedig ar y Ddeddf, a oedd yn debygol bellach o gael ei chynnal ym mis Mai neu Fehefin er mwyn cyd-fynd â phroses ymgynghori'r Swyddfa Gartref, yn cael ei chynnal ar y cyd gan y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol a'r Cynulliad a byddai'r sector cyhoeddus yn cael neges gryf iawn ynglí n â phwysigrwydd y Ddeddf.

1.3 Holodd yr Aelodau ym mha fodd y byddai'r dyletswyddau hyn yn asio gyda'r agenda prif ffrydio gyfredol a sut y byddai'r broses o gael caniatâd y Cynulliad i osod dyletswyddau penodol yn gweithio. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion gynhyrchu papur ar sut y byddai gweithredu'r Mesur Diwygio Cysylltiadau Hiliol yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r agenda cyfle cyfartal ehangach a dywedodd bod papur ar faterion hyfforddi wrthi'n cael ei gynhyrchu.

1.4 Roedd y Cadeirydd wedi derbyn llythyr gan y Comisiwn Hawliau Anabl ynglí n â hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol sydd i ddod. Er nad oedd pwerau yn ymwneud â threfniadau ar gyfer etholiadau cyffredinol wedi cael eu datganoli i'r Cynulliad, roedd mater ehangach yn bodoli o ran mynediad i hawliau pleidleisio. Dywedodd Will Bee bod mater mynediad yn codi yn syth cyn yr etholiadau cyffredinol ond yn mynd yn angof wedyn. Roedd Anabledd Cymru wedi ysgrifennu at bob Swyddog Etholiad yn gofyn iddynt ddefnyddio'r gorsafoedd pleidleisio i'r eithaf. Nid oedd pleidleisio drwy'r post yn opsiwn derbyniol bob amser felly roedd mynediad i'r gorsafoedd yn hanfodol. Efallai y byddai ymestyn darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn 2004 yn ymdrin â rhai o'r materion hyn ond roedd y broblem yn parhau i fodoli yn y cyfamser.

1.5 Dywedodd yr Aelodau mai'r adeiladau a ddefnyddwyd gan amlaf oedd adeiladau llywodraeth leol a oedd yn tueddu i fod yn gymharol hen. Nid oedd yr opsiwn o ddefnyddio cabannau symudol yn dderbyniol gan nad oeddent yn hygyrch ac roedd y posibilrwydd o ganiatáu pobl ag anableddau i ddefnyddio ystafell ar wahân yn gwahaniaethu. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod y materion hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac y byddai'n ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn eu trafod gyda hi a byddai'n adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor. Roedd hefyd yn cynnig eitem agenda ar gyfer y mater i gael ei gyflwyno ar gyfer tymor yr haf er mwyn rhoi ystyriaeth i'r hyn a oedd yn digwydd yng ngweddill y DU.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

**Papur:** EOC-02-01(p.1)

2.1 Cyflwynodd Kate Bennett Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC) drwy ddweud mai adroddiad dros dro oedd hwn a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr 1999 a Mawrth 2000 fel bod cyfnod yr adroddiad yn dod i ben yr un pryd â'r flwyddyn ariannol. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal wedi cael Cadeirydd a Phrif Weithredwr newydd yn genedlaethol a Cyfarwyddwr a Dirprwy Gyfarwyddwr newydd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Gofynnodd am farn yr aelodau ynglí n â chynhyrchu atodiad a oedd yn cwmpasu Cymru'n benodol.

2.2 Roedd yr adroddiad yn cwmpasu chwe thema ac yn edrych ar y sefyllfa bresennol, achosion cyfreithiol a oedd yn berthnasol i'r thema a datblygiadau yn y dyfodol ym mhob achos. Y themau oedd:

1. cyflog cyfartal – penderfynwyd yn yr achos Levez y gallai cyflogwyr fod yn rhwymedig i ôl-daliadau hyd at chwe mlynedd pan fo dynes yn cael ei thalu llai am wneud yr un gwaith â dyn. Roedd y rhwymedigaeth flaenorol yn gyfyngedig i 2 flynedd.
2. cydbwysedd gwaith/bywyd – roedd 17% o'r achosion y'u dygwyd yn eu blaen gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn ymwneud â dynion a oedd am dreulio rhagor o amser gyda'u teuluoedd.
3. cyflwyno rolau merched a dynion yn ystrydebol – roedd merch ysgol o Gymru wedi ennill achos a oedd yn ei chaniatáu i wisgo trowsus yn yr ysgol. Fodd bynnag, roedd yr achos ond yn golygu newid i'r unigolyn dan sylw. Roedd y Cynulliad yn y broses o newid rheoliadau o ran gwisgoedd ysgol fel y gellir ymestyn yr hawl hwn i bob merch ysgol.
4. merched mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol – Cymerwyd achos ar ran aelod arfaethedig o Senedd yr Alban a oedd am rannu swydd. Byddai'r achos hwn yn galluogi'r Comisiwn Cyfle Cyfartal i brofi statws gwaith gwleidyddol er mwyn penderfynu ai cynnwys cyflogaeth ydoedd.
5. fframwaith cyfreithiol y dyfodol – Ehangwyd cylch gwaith y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn 1999 er mwyn cynnwys ailgyfeiriad rhyw. Hoffai'r Comisiwn Cyfle Cyfartal weld gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn cael ei wahardd, cyfreithiau cyflog cyfartal yn cael eu newid er mwyn ymdrin â gwahaniaethu systematig, dyletswydd sector cyhoeddus i hybu cydraddoldeb, diogelu hawliau'r rhai hynny sy'n cymryd dylestwyddau teuluol a gofalu a mesurau arbennig i gynyddu'r nifer o ferched mewn bywyd gwleidyddol.
6. prif ffrydio cydraddoldeb ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol – roedd yr Adroddiad Blynyddol yn amlygu polisïau'r Cynulliad. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn bwriadu cynnal cynhadledd ar brif ffrydio ar 12 Mehefin.

2.3 Gan fod deddfwriaeth cyflog cyfartal wedi ei chyflwyno ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, dywedodd Teresa Rees wrth y pwyllgor nad oedd yn debygol y ceir achosion o gyflog anghyfartal y dyddiau hyn oherwydd gwahaniaethu uniongyrchol. Byddai gwahaniaethu anuniongyrchol yn llawer fwy tebygol oherwydd systemau cyflog a graddfeydd. Roedd nifer syfrdanol o hyd o ferched nad oedd yn cael digon o gyflog ac felly roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal wedi sefydlu Tasglu Cyflog Cyfartal 13 mis yn ôl a arweinwyd gan gyflogwyr. Byddant yn lansio adroddiad ar eu hargymhellion ynglí n â dileu anghydraddoldeb cyflog ar 27 Chwefror. Roedd gan gyflog anghyfartal effeithiau hir dymor a golygai na allai merched edrych ar ôl eu hunain, eu hymborth, eu plant, na'u hymddeoliad yn iawn. Roedd yn effeithio ar hunan-hyder merched ac yn golygu nad oedd rhai yn gallu gadael perthynas ble roeddent yn cael eu cam-drin felly roedd yr effeithiau yn ymestyn ymhell y tu hwnt i faterion ariannol. Gobeithiai'r Athro Rees y byddai'r Cynulliad yn gallu cynorthwyo i weithredu'r argymhellion o gofio ei fod eisoes wedi cychwyn arfer da drwy gynnal archwiliadau cyflog o ran rhyw ei staff ei hun. Cytunodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad cyn gynted ag y bo modd.

2.4 Codwyd y pwyntiau canlynol gan yr aelodau mewn trafodaeth:

1. roedd yr adroddiad wedi ei chyflwyno yn arbennig o dda ond byddai'n ddefnyddiol cael adran neu atodiad ar Gymru neu hyd yn oed adroddiad ar wahân fel y gellir amlygu materion yng Nghymru a ledled y DU.
2. Ymddengys bod nifer o rwystrau o ran rhannu swydd ymysg cynrychiolwyr a etholwyd ond efallai y gellir goresgyn y rhain. Byddai angen protocol ar bwy fyddai'n pleidleisio pryd a sut i ymdrin â busnes yn gyffredinol. Ceiswyd cyngor gan y Pwyllgor o ran a gyflwynwyd hyn mewn unrhyw wlad arall.

3. Byddai'n ddefnyddiol gwybod beth oedd y sefyllfa ynglí n ag archwiliadau cyflog staff y Cynulliad. Cytunodd y Cadeirydd y dylai'r swydddogion hysbysu'r pwyllgor am y sefyllfa cyn trafod adroddiad y tasglu sydd i ddod.
4. O ran cyflwyno ystrydebau, roedd gan lawer mwy o ddynion drwyddedau gyrru na merched ynghyd â mynediad at geir. Cynigiwyd bod y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn darparu unrhyw ddata a oedd ganddynt ar y mater i Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau i'w ystyried yn yr ymgynghoriad presennol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

2.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth y byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd ato yn y dyfodol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Ymchwiliad Stephen Lawrence**

3.1 Dywedodd y Cadeirydd bod cyfarfod anffurfiol pellach o'r gweithlu o swyddogion wedi ei gynnal ac y byddai'r grë p llywio yn trafod materion a oedd yn ymwneud â'r cwricwlwm gyda Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ac ACCAC y prynhawn hwnnw. Byddai Cadeirydd y grë p llywio, Helen Mary Jones, yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y trafodaethau hyn yn y cyfarfod nesaf.

3.2 Bu bron yn flwyddyn ers dechrau'r gwaith ar ymdrin ag argymhellion addysg adroddiad MacPherson ond nid oedd unrhyw beth cadarn wedi cyrraedd y cyhoedd hyd yma. Achosodd hyn gryn rwystredigaeth i'r grë p llywio. Gwnaethpwyd Jane Davidson yn ymwybodol yn anffurfiol o farn y grë p. Cynhyrchwyd papur drafft ar fesurau i ymdrin â'r argymhellion a gobeithiai'r grë p ei weld yn fuan.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd mai arweiniad bras ac nid cyfarwyddiadau manwl y dylai'r grë p llywio a'r Pwyllgor ei roi i'r swyddogion. Dylai'r swyddogion gyflawni'r gwaith yn dilyn cyngor cyffredinol y Pwyllgor ar egwyddor cydraddoldeb a gobeithiai weld cynnydd yn fuan.

**Eitem 4 ar yr Agenda: 'Gwerth Gorau' mewn Llywodraeth Leol ac Archwiliad Cydraddoldeb o Lywodraeth Leol yng Nghymru**

**Cyflwyniad: Bethan Evans, Syniad, a Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

4.1 Croesawyd y siaradwyr gan y Cadeirydd a diolchodd iddynt am yr ymagwedd gadarnhaol a gymerwyd yn y papur sefyllfa gonest a ddosbarthwyd i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

4.2 Dywedodd Bethan Evans bod gan Syniad a CLlLC rannau allweddol o ran cydraddoldeb mewn llywodraeth leol. Sefydlwyd Syniad 18 mis yn ôl ac asiantaeth ddatblygu ydoedd ar gyfer cynghorau yn ogystal â gweithredu fel sefydliad y cyflogwyr mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd gan awdurdodau lleol rôl anodd ac allweddol o ran materion cydraddoldeb. Roeddent yn gyflogwyr pwysig ond hefyd yn brynwyr pwysig o gyflenwadau a gwasanaethau yn ogystal â bod yn ddarparwyr gwasanaeth lleol. Yn y broses ddemocrataidd, roedd ganddynt rôl sylfaenol wrth arwain ac adlewyrchu eu cymunedau.

4.3 Lansiwyd Siarter ar gyfer Cynghorwyr gan Syniad yn 2000 a oedd yn gofyn i awdurdodau lleol ymuno â datblygiad parhaus yr aelodau etholedig a darganfod ffyrdd o gael cynghorau i fod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau yr oeddent yn eu gwasanaethu. Roedd Syniad yn annog awdurdodau i edrych ar y systemau yr oeddent yn eu gweithredu a threfnu eu busnes er mwyn annog eraill i ystyried bod yn gynghorwyr etholedig. Roedd hwn yn fater i grwpiau'r pleidiau gwleidyddol hefyd. Pe bai cyfansoddiad y cynghorau yn wirioneddol gynrychioladol, byddai gwahanol faterion a blaenoriaethau yn codi er mwyn eu hystyried. Roedd Syniad hefyd yn annog aelodau etholedig i rannu materion ac ystyried eu dimensiwn cydraddoldeb fel y gellid cryfhau yr ystod o waith ar gydraddoldeb. O dan Werth Gorau, roedd ystod o gyfleoedd i awdurdodau ystyried dangosyddion perfformiad allweddol gyda phersbectif cydraddoldeb wedi ei gynnwys.

4.4 Roedd nifer o sectorau ac asiantaethau yn cyfranogi yn y materion hyn. Byddai'r Cyfarfod Partneriaeth Cydraddoldeb yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu safon cydraddoldeb gyffredinol. Roedd Rhwydwaith Cydraddoldeb Llywodraeth Leol Cymru yn edrych i ddatblygu hyn. Roedd y Set Dysgu drwy Weithredu yn annog swyddogion cydraddoldeb ac yn gweithio â hwy. Roedd Cyd-Gyngor Cymru sefydlu grë p gorchwyl a gorffen i ystyried y rhwystrau posibl i grwpiau a dangynrychiolir i symud at lefelau rheoli uwch.

4.5 Rhoddodd Steve Thomas adroddiad am ddatblygiadau o ran Pecyn Offer Cydraddoldebau a lansiwyd yn 1999 gan yr Ysgrifennydd Gwladol bryd hynny. Roedd hyn wedi caniatáu awdurdodau lleol i nodi materion cydraddoldeb ac felly wedi arwain at ystyried cydraddoldeb fel mater corfforaethol yn hytrach na mater gwasanaethau cymdeithasol. Golygai'r amrywiaeth enfawr o waith a wneir yn yr awdurdodau nad oeddynt yn llwyddiannus wrth roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith a gyflawnwyd ganddynt.

4.6 Yn dilyn sefydlu'r pecyn offer, roedd deg awdurdod wedi cwblhau archwiliad cydraddoldeb, roedd saith ohonynt yn parhau ac nid oedd pump ohonynt wedi cychwyn (er bod y rhain wedi defnyddio mentrau eraill eu hunain). Roedd esiamplau da o'r cynnydd ar gael ond cymysglyd oedd y canlyniadau. Hoffai CLlLC gyflymu'r agenda ond roedd angen mwy o ymrwymiad o'r lefel uchaf. Ni ddylai cydraddoldeb alinio i Werth Gorau yn unig. Roedd gan awdurdodau'r grym i wneud unrhyw beth priodol i hybu lles cymdeithasol ac economaidd a dylid edrych ar gydraddoldeb yn y goleuni hwn. Roedd CLlLC yn trafod y materion hyn i gyd gyda'r Cynulliad.

4.7 Roedd y Safon Cydraddoldebau Cyffredinol yn darparu meincnod i'r awdurdodau o'r hyn y dylent anelu ato. Roedd y safon yn cynnwys pum lefel asesu ac roedd yn cael ei drafftio ar hyn o bryd. Roedd pob awdurdod lleol wedi cyfarfod ddwywaith yn ddiweddar ac roeddynt i gyd wedi ymuno â'r safon. Roedd y CLlLC hefyd yn gweithio ar strategaeth o ran y rhywiau. Sefydlwyd Tasglu Cydraddoldebau awdurdodau lleol i hybu cydraddoldeb, gosod safonau ac asesu achosion ble nad oedd cydraddoldeb yn bodoli. Roedd trafodaethau yn parhau gyda'r Cynulliad ynglí n â hyn. Roedd rhai awdurdodau wedi nodi aelod o'r cabinet yn glir a oedd â chyfrifoldeb am gydraddoldeb. Annogwyd pob un i ddilyn y llwybr hwnnw.

4.8 Ystyriai Kate Bennett bod y gwaith yr oedd Syniad a CLlLC yn ei gyflawni yn galonogol ond gobeithiai na fyddai'r hyn yr oedd yr oedd dyletswydd ar y cynghorau i'w gyflawni yn tarfu ar yr hyn y dymunent ei gyflawni. Byddai angen ystyriaeth ofalus, yn enwedig o ran adnoddau. Roedd Will Bee yn falch o weld perthnasau da yn cael eu hadeiladu ac roedd yn falch o weld awdurdodau yn edrych ar anabledd fel model cymdeithasol er mwyn edrych ar y materion gwirioneddol. Fodd bynnag, golygai cofnodion cyfyngedig bod rhwystrau yn narpariaeth y gwasanaethau weithiau. Er enghraifft, roedd wedi clywed am awdurdod, nid yng Nghymru o bosibl, ble roedd 1100 o blant anabl yn yr ardal ond nid oedd y gwasanaethau cymdeithasol ond yn darparu ar gyfer y 132 o blant a nodwyd gan yr awdurdod. Ystyriai Mashuq Ally bod yr awdurdodau yn gosod sylfeini cadarn i adeiladu arnynt. Ystyriai y dylai'r tri corff statudol fod ar y corff 'bwrdd crwn' er mwyn sicrhau bod gwasanaeth o safon cydraddoldeb cyffredinol yn cael ei gyflwyno. Nid oedd y Bartneriaeth Cydraddoldebau wedi cytuno eto ar yr Uned Cydraddoldebau ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru ond byddai'n fecanwaith pwysig iawn i gyflwyno cydraddoldeb. Dywedodd y Cadeirydd bod barn y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd yr Uned fel ag yr oedd CLlLC a'r Cyngor Partneriaeth.

4.9 Dywedodd yr Aelodau:

1. Er bod gan nifer o awdurdodau arferion da ar bapur, nid oedd y rhain o anghenraid yn cael eu gwireddu. Yn ogystal, mae'n bosibl nad oedd yr awdurdodau hynny sy'n arbennig o dda o ran arferion adnoddau dynol yn gweithredu hyn o ran darpariaeth gwasanaethu.
2. Roedd yn bwysig fod Bwrdd yr Iaith yn aelodau o'r Bartneriaeth Cydraddoldeb gan bod iaith yn fater cydraddoldeb hefyd.
3. Roedd angen i Werth Gorau ystyried cydraddoldeb mewn perthnasau gyda'r sector gwirfoddol gan bod disgwyliadu'r sector o lywodaeth leol yn amrywiol iawn. Cytunodd CLlLC ei fod yn amrywiol ond roedd nifer o awdurdodau yn cydweithio'n dda â'r sector.
4. Roedd yn hanfodol cael data gwaelodlin i ddynodi'r sefyllfa gychwynnol ar unrhyw fenter. Mae gan rai awdurdodau y data hwn ond newydd gychwyn arno mae awdurdodau eraill. O ran dangosyddion perfformiad, roedd yn bwysig gwahaniaethu rhwng dangosyddion statudol a dangosyddion eraill. Annogwyd aelodau i nodi dangosyddion allweddol cyffredinol a pherthnasol a dangosyddion eraill p'un a oeddent yn statudol ai peidio. Byddai gan ddangosyddion perfformiad lleol felly yr un safon a chysylltiad i'r safon gydraddoldeb gyffredinol. Er enghraifft, byddai dangosyddion

perfformiad Gwerth Gorau yn monitro'r nifer o ferched yn y tair haen rheoli uchaf.

5. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r awdurdodau yn ymgynghori â'r Pwyllgor ar ddatblygu'r safon cyffredinol. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drefnu.
6. Dylai'r trefniannau archwilio fod yn fwy cefnogol ac yn llai gormesol. Fodd bynnag, roedd CLlLC wedi canfod bod y nifer o arolygiadau a'r diffyg cyswllt rhwng yr asiantaethau arolygu gwahanol yn golygu bod anawsterau wedi eu hachosi i'r awdurdodau a oedd yn cael eu harolygu.
7. O ran y Siarter, roedd grwpiau gwleidyddol yn ceisio cael ymrwymiadau gwahanol gan sefydliadau gwahanol. Cychwynnodd o ffocws awdurdod ond byddai'n cael ei ehangu i gyrff eraill yn y cam nesaf. Roedd wedi ei eirio yn ofalus iawn, gan ofyn i bleidiau gwleidyddol ddarparu gwybodaeth ac arweiniad ond roedd rhaid ystyried yr hyn yr oedd yn ei olygu yn ymarferol.
8. Byddai'n bwysig iawn gweld sut y byddai materion yn datblygu yn dilyn y strwythurau gwleidyddol newydd o fewn awdurdodau. Byddai materion yn codi o ran cynrychiolaeth, yn arbennig o ran proffil oed yr aelodau etholedig a chynrychiolaeth gan leiafrifoedd ethnig.

4.10 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am gyfrannu at drafodaeth ddefnyddiol iawn. Roedd yn cynnig ailymweld â'r materion a drafodwyd mewn cyfarfod arall o'r Pwyllgor ymhen chwe mis.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** EOC-01-01(min)

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

5.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12:10pm.